

Chris Rowsell  
Rheolydd, Rheoleiddio  
New Broadcasting House  
Portland Place  
Llundain  
W1A 1AA

19 Rhagfyr 2024

Annwyl Chris,

## Casgliad yr asesiad cychwynnol o orsafoedd radio newydd arfaethedig DAB+ y BBC a newidiadau arfaethedig i Radio 5 Sports Extra

Ar 21 Tachwedd 2024, roedd y BBC wedi [cyhoeddi ei gynigion](#) i: (a) lansio pedair gorsaf DAB+ newydd a (b) ymestyn oriau darlledu Radio 5 Sports Extra. Ar yr un diwrnod, fe wnaethom ddechrau asesiad cychwynnol i benderfynu a yw'r newidiadau yn sylweddol ac, os felly, pa fath o asesiad y byddwn yn ei gynnal.

Bwriad y llythyr hwn yw rhoi gwybod i chi ein bod wedi cwblhau ein hasesiad cychwynnol ac wedi dod i'r casgliad bod cynigion y BBC yn golygu newidiadau sylweddol sy'n galw am asesiad pellach gan Ofcom. Ar 6 Ionawr 2025, byddwn yn lansio asesiadau cystadleuaeth llawn y BBC mewn perthynas â (1) gorsafoedd radio DAB+ newydd arfaethedig y BBC a (2) ei newidiadau arfaethedig i Radio 5 Sports Extra. Rydym yn esbonio ein penderfyniad isod.

### Cefndir

Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu rhaglenni sy'n cyflawni ei genhadaeth, gall y BBC edrych ar newid ei weithgareddau presennol neu geisio datblygu gwasanaethau newydd i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd.

Mae modd ystyried bod rhai newidiadau yn rhai bach, er enghraifft penderfyniadau golygyddol o ddydd i ddydd am raglenni unigol neu eu hamserlen. Serch hynny, gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, gallai newidiadau eraill y mae'n dymuno eu gwneud, fel cyflwyno Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn y DU, effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth yn y farchnad cyfryngau ehangach.

Dan delerau [Siarter a Chytundeb y BBC](#), ni chaiff y BBC wneud 'newid sylweddol' i'w Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU oni fo'n dod i'r casgliad fod unrhyw gynnig o'r fath yn bodloni Prawf Budd y Cyhoedd ('PIT'). Bydd Prawf Budd y Cyhoedd ddim ond yn cael ei fodloni os bydd Bwrdd y BBC yn penderfynu:

- a) bod y cynnig arfaethedig yn cyfrannu at genhadaeth y BBC ac at hyrwyddo o leiaf un o'r dibenion cyhoeddus;
- b) bod camau rhesymol wedi cael eu cymryd i sicrhau na fydd y newid arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau niweidiol diangen ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a
- c) bod gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Penderfynodd y BBC y byddai ei gynigion yn golygu newidiadau sylweddol i'w wasanaethau. Lansiodd Profion Budd y Cyhoedd ar gyfer y gorsafoedd radio DAB+ newydd arfaethedig ac ar gyfer y newidiadau arfaethedig i Radio 5 Sports Extra ym mis Chwefror 2024 a chyhoeddodd y ddau gynnis, ynghyd â thystiolaeth ategol, ar 21 Tachwedd 2024, gan ddatgan bod Bwrdd y BBC o'r farn i'r profion hynny gael eu bodloni.

## Cynigion y BBC

Mae'r BBC yn cynnig lansio pedair gorsaf radio cerddoriaeth newydd y mae'r BBC yn dweud a fyddai'n gwella'r gwerth i bob cynulleidfa, gan gynnwys cynulleidfaedd iau (15 – 34) a chynulleidfaedd C2DE sydd ar hyn o bryd yn cael llai o werth gan y BBC. Byddai'r rhain yn cael eu darlledu ar DAB+ a hefyd ar gael ar-lein, gan gynnwys BBC Sounds. Dyma'r gwasanaethau newydd arfaethedig.

- **Radio 1 Dance:** Mae hyn wedi bod yn ffrwd ar BBC Sounds ers mis Hydref 2020. Mae'r BBC yn bwriadu ail-lansio hwn fel gorsaf radio, gan dargedu cynulleidfaedd iau. Byddai'r orsaf Radio 1 Dance arfaethedig yn cynnwys rhagor o gynnwys, a fyddai'n gomisiynau newydd ac amrywiaeth o genres dawns gan gynnwys cerddoriaeth house, techno, breakbeat, drum & bass, trance, EDM, Afro House ac UK Funky.
- **Radio 1 Anthems:** Mae'r BBC yn datgan y byddai hyn yn chwarae "ystod ehangach o gerddoriaeth nag unrhyw orsaf debyg", gyda chymysgedd tebyg o genres i Radio 1, gan gynnwys pop clasurol, roc, rap, R a B, dawns a thraciau annibynnol o'r ddau ddegawd diwethaf. Byddai'r orsaf arfaethedig yn canolbwyntio'n benodol ar gynulleidfaedd iau.
- **Estyniad Radio 2:** Dywed y BBC y byddai hyn yn darparu cerddoriaeth a chynnwys archif y BBC o'r 1950au, y 1960au a'r 1970au, gydag oddeutu 60% o'r amserlen yn cael ei harwain gan siarad. Byddai hefyd yn cynnwys o leiaf 10 bwletin newyddion bob dydd, yn gydamserol â Radio 2. Byddai'r orsaf arfaethedig yn cael ei thargedu at gynulleidfaedd 55 oed a hŷn. Mae'r BBC yn dweud ei fod yn sefydlu partneriaeth rhwng estyniad Radio 2 a gorsafoedd radio lleol a chenedlaethol y BBC i roi sylw i gerddoriaeth rhanbarthau penodol ledled y DU.
- **Radio 3 Unwind:** Mae'r BBC yn dweud y byddai'r orsaf hon wedi'i hanelu at gynulleidfaedd rhwng 35 a 54 oed, gan ddarparu cerddoriaeth glasurol i gefnogi arferion dyddiol gwrandawyr, a chefnogi llesiant. Byddai'r rhan fwyaf o'r gerddoriaeth a ddarlledir ar yr orsaf arfaethedig wedi cael ei recordio dros y pum mlynedd diwethaf, a byddai'n cynnwys gweithiau cerddorfaol, unawdau piano, cerddoriaeth gorawl ysgafn, cerddoriaeth o'r repertoire minimalaidd a neoglasurol, a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig gan gerddorfeydd a chorau'r BBC. Byddai polisi cerddoriaeth yr orsaf arfaethedig yn cynnwys pwyslais ar gyfansoddwyr byw cyfoes, cyfansoddwyr o'r DU a pherfformwyr o Brydain.

Ar 16 Gorffennaf 2024, fe wnaethom gyhoeddi [penderfyniad](#) am berthnasedd y ffrydiau BBC Sounds yn unig uchod. Fe wnaethom ddod i'r casgliad nad oedd ffrydiau BBC Sounds yn unig Radio 1 Anthems, Radio 3 Unwind (a Radio 1 Dance) yn newidiadau 'sylweddol', ac y gallai'r BBC fwrw

ymlaen â'i gynlluniau ar gyfer y ffrydiau hyn, ac yn dilyn hynny aeth ati i'w lansio.<sup>1</sup> Mae'r BBC yn dweud, os bydd cynigion y BBC ar gyfer y gorsafoedd DAB+ newydd hyn yn mynd rhagddynt, y byddai ffrydiau Sounds yn unig Radio 1 Anthems a Radio 3 Unwind yn cael eu "cynnwys yn y gorsafoedd llawn".

Mae'r BBC hefyd yn bwriadu ymestyn oriau darlledu **Radio 5 Sports Extra**, sydd ar hyn o bryd yn estyniad rhan-amser i BBC Radio 5 Live sy'n cynnig darllediadau chwaraeon byw. O dan ei gynnig, byddai'r orsaf yn dod yn wasanaeth oriau estynedig, gan ddarlledu rhwng 9am a 7pm, gan ddarparu cynnwys heb fod yn fyw sy'n ymwneud â chwaraeon fel podlediadau chwaraeon yn y bylchau rhwng digwyddiadau chwaraeon byw. Mae'r BBC yn dweud nad yw'r cynigion yn golygu unrhyw gynydd i wariant comisiynu'r BBC nac oriau darlledu chwaraeon byw. Mae'n nodi y byddai'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd iau a C2DE.

## Rôl Ofcom

Os yw Bwrdd y BBC yn dod i'r casgliad bod Prawf Budd y Cyhoedd wedi'i fodloni, rhaid i Ofcom gynnal ei asesiad ei hun o'r cynigion cyn y gellir rhoi newid ar waith. Mae'r Cytundeb yn rhannu gwaith Ofcom yn ddau gam – y cam asesu cychwynnol a'r cam asesu manwl. Yn ystod y cam cyntaf, y mae'n rhaid ei gwblhau o fewn chwe wythnos, mae'n ofynnol i Ofcom wneud y canlynol:

- a) cadarnhau a yw newid y BBC yn un sylweddol; ac, os felly
- b) penderfynu ar ba ffurf y dylai ein hasesiad manwl fod yn ystod yr ail gam.

Er mwyn ein helpu i wneud hyn, fe wnaethom gyhoeddi [gwahoddiad i gyflwyno sylwadau](#) ar 21 Tachwedd 2024 lle roeddem wedi cynnig penderfynu bod dau newid arfaethedig y BBC yn sylweddol. Fe wnaethom hefyd ddweud y byddem yn ystyried, yn ystod y cyfnod cychwynnol hwn, a oedd Profion Budd y Cyhoedd y BBC yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i'n galluogi i gwblhau asesiad mwy manwl yng ngham dau, ac a ddylai ein hasesiadau fod ar ffurf Asesiad Cystadleuaeth y BBC neu Asesiad Byrrach. Fe wnaethom egluro, yn y cyd-destun hwn, ein bod yn bwriadu cynnal Asesiadau Cystadleuaeth y BBC gan fod y cynigion yn cynnwys nifer o bartïon â diddordeb a oedd wedi codi ystod o faterion posibl ynghylch cystadleuaeth. Fe wnaethom wahodd sylwadau ynghylch ein dull gweithredu arfaethedig a gofyn i randdeiliaid a phartïon â diddordeb roi gwybodaeth bellach i ni yn esbonio sut y gallai dau gynnig y BBC effeithio arnynt.

## Yr hyn a ddywedodd rhanddeiliaid wrthym

Mewn ymateb i'n gwahoddiad i gyflwyno sylwadau, cawsom ymatebion gan 18 o randdeiliaid mewn perthynas â phroffion budd y cyhoedd (naw sefydliad a naw aelod o'r cyhoedd), ac rydym yn eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r llythyr hwn.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â ni fod cynigion y BBC yn newidiadau sylweddol ac y dylent fod yn destun Asesiadau Cystadleuaeth llawn y BBC. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn cytuno â dadansoddiad y BBC o werth cyhoeddus ac effaith ar y farchnad mewn perthynas â'r cynigion, ac yn dweud y dylai cynigion y BBC fod yn destun Asesiadau Byrrach yn lle hynny.

---

<sup>1</sup> Daethom i'r casgliad hefyd bod ffrwd estyniad Radio 2 Sounds yn unig arfaethedig yn sylweddol ac fe wnaethom gyfarwyddo'r BBC i gynnal Prawf Budd y Cyhoedd petai'n dymuno bwrw ymlaen ag ef. Yn dilyn hynny, rhoddodd y BBC y gorau i'w gynlluniau am ffrwd estyniad Radio 2 Sounds yn unig.

Mynegodd y rhan fwyaf o ymatebwyr bryderon nad oedd ymgynghoriadau Prawf Budd y Cyhoedd y BBC yn rhoi digon o gyfle i randdeiliaid gyflwyno eu safbwyntiau'n llawn, a bod diffyg eglurder o hyd ynghylch cynigion y BBC, gan gynnwys o ran adnoddau ariannol, cyrhaeddiad a'r math o gynnwys.

Cododd ymatebwyr nifer o bwyntiau am werth cyhoeddus ac effaith bosibl cynigion y BBC ar y farchnad, yn unigol ac ar y cyd, gan gynnwys:

- nid yw'r BBC wedi dangos natur unigryw ei gynigion;
- nid yw'r BBC wedi rhoi digon o dystiolaeth i gefnogi ei achos gwerth cyhoeddus;
- gallai'r cynigion arwain at ddargyfeirio cynulleidfaoedd o orsafoedd radio masnachol, gan arwain at ostyngiad mewn refeniw a phroffidioldeb radio masnachol;
- gallai'r cynigion effeithio ar gystadleuaeth mewn rhannau eraill o'r gadwyn gyflenwi; a
- gallai cynulleidfaoedd radio lleol a chymunedol leihau, a thrwy hynny effeithio ar eu cynaliadwyedd ariannol, a chynaliadwyedd gweithredwyr amblecs DAB ar raddfa fach.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am wallau yng ngwaith modelu economaidd y BBC o effaith y gorsafoedd radio DAB+ newydd arfaethedig ar y farchnad.

## Pa mor sylweddol yw'r cynigion

Mae'n rhaid i ni gynnal asesiad cystadleuaeth os ydym o'r farn bod cynigion y BBC yn newidiadau sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus y DU. Mae'r Cytundeb yn egluro bod cynnal unrhyw weithgarwch fel Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU yn newid sylweddol.<sup>2</sup>

**Cynnig y BBC i lansio pedair gorsaf radio DAB+ newydd:** yn dilyn ein hadolygiad o gynigion y BBC sydd wedi'u nodi ym Mhrawf Budd y Cyhoedd y BBC, ynghyd â mewnbwn a dderbyniwyd gan randdeiliaid, rydym yn fodlon y byddai pob gorsaf DAB+ newydd arfaethedig yn golygu Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU. O'r herwydd, rydym wedi dod i'r casgliad y byddai pob un o'r gorsafoedd newydd hynny yn newid sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus y DU.

**Cynnig y BBC i ymestyn oriau darlledu Radio 5 Sports Extra:** yn dilyn ein hadolygiad o gynnig y BBC sydd wedi'i nodi ym Mhrawf Budd y Cyhoedd y BBC, ynghyd â'r mewnbwn a gawsom gan randdeiliaid, rydym yn fodlon - oherwydd natur y newid ac am mai dim ond un cystadleuydd sydd ym marchnad radio chwaraeon y DU, talkSPORT - bod y cynnig yn golygu newid i Wasanaethau Cyhoeddus y DU a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. O'r herwydd, rydym wedi dod i'r casgliad y byddai hwn yn newid sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus y DU.

## Lle ar gyfer asesiad pellach

O dan delerau'r Cytundeb, rhaid i'n hasesiadau fod ar ffurf un ai Asesiad Cystadleuaeth y BBC neu Asesiad Byrrach. Yn ein canllaw, [Guidance for assessing the impact of proposed changes to the BBC's public service activities](#), rydym yn egluro:

- a) mae Asesiad Cystadleuaeth y BBC yn fwy tebygol o fod yn briodol "pan fydd cynnig yn codi materion mawr, cymhleth a/neu arbennig o ddadleuol, a allai gynnwys nifer o bartion sydd â diddordeb a ffyrdd lle gallai fod effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol"; ond,

---

<sup>2</sup> Mae'r Cytundeb yn diffinio newid sylweddol fel unrhyw weithgaredd a gynhelir fel Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU; ac unrhyw newid i Wasanaeth Cyhoeddus yn y DU a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol – Cymal 7(7).

- b) mae Aseiad Byrrach yn debygol os “oes ystod lai o faterion i’w hystyried,” er enghraifft pan fyddwn yn ystyried bod Prawf Budd y Cyhoedd y BBC “yn rhoi sylw digonol i’r holl faterion (neu’r rhan fwyaf ohonynt)”.

Yn ein canllaw, rydym yn nodi'r ffactorau yr oeddem yn disgwyl eu hystyried wrth benderfynu pa aseiad oedd fwyaf priodol, gan gynnwys:

- trylwyredd, ansawdd a chydbwysedd Prawf Budd y Cyhoedd y BBC;
- tebygolrwydd canlyniad gwahanol i glirio diamod;
- a oes elfen wahanadwy o’r cynnig sy’n achosi pryder, tra bod yr elfennau eraill yn achosi fawr o bryderon; a
- pha mor gymesur yw’r adnoddau sydd eu hangen.

Fel y trafodwyd uchod, mae ein gwahoddiad i gyflwyno sylwadau wedi nodi amrywiaeth o bryderon a meysydd pwysig i ni eu harchwilio ymhellach mewn perthynas â gwerth cyhoeddus ac effaith bosibl cynigion y BBC ar y farchnad. O’r herwydd, rydym o’r farn ei bod yn briodol cynnal Aseidiadau Cystadleuaeth llawn y BBC yn hytrach nag Aseidiadau Byrrach.

Rydym yn fodlon bod y BBC wedi rhoi digon o wybodaeth i Ofcom i’n galluogi i fwrw ymlaen ag Aseidiadau Cystadleuaeth y BBC ar gyfer y ddau gynnig. Fel rhan o’r broses hon, byddwn yn cynnal ein hasesiad ein hunain o unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, a bydd cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau. Byddwn hefyd yn gofyn i’r BBC a rhanddeiliaid eraill am wybodaeth ychwanegol.

## Ymgysylltiad y BBC â rhanddeiliaid

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan rai rhanddeiliaid ynghylch proses ymgynghori ac ymgysylltu’r BBC, fel y nodir uchod. Fodd bynnag, yn gyffredinol, rydym yn fodlon bod y partïon â diddordeb wedi cael cyfle addas i gyflwyno sylwadau am Brofion Budd y Cyhoedd y BBC – fel sy’n ofynnol o dan y Cytundeb – yn ddigon cynnar lle gallent gael dylanwad ar gynigion terfynol y BBC i liniaru’r effeithiau niweidiol posibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.<sup>3</sup>

## Trwydded Weithredu’r BBC

Mae’r Cytundeb yn creu rhwymedigaethau ar Ofcom i osod amodau [Trwydded Weithredu](#) penodol ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU,<sup>4</sup> ac yn rhoi disgrisiwn i ni osod rhagor o amodau rheoleiddiol fel sy’n briodol yn ein barn ni er mwyn ei gwneud yn ofynnol i’r BBC, wrth gyflawni Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, wireddu ei Genhadaeth a hyrwyddo’r Dibenion Cyhoeddus, ac i sicrhau bod cynulleidfaoedd yng ngwledydd y DU yn cael gwasanaeth da.

Os byddwn yn penderfynu dros dro y dylid caniatáu i’r BBC fwrw ymlaen â’r naill set neu’r llall o gynigion, yn llawn neu’n rhannol, byddwn hefyd yn ystyried a yw unrhyw newidiadau i’r Drwydded Weithredu yn briodol. Mae’n rhaid i Ofcom ymgynghori cyn gwneud newidiadau i’r Drwydded Weithredu.<sup>5</sup>

---

<sup>3</sup> [Y Cytundeb](#), cymal 7(5)

<sup>4</sup> [Y Cytundeb](#), cymal 13(2)

<sup>5</sup> [Y Cytundeb](#), cymal 13(5)

## Y camau nesaf

Dan y Cytundeb, mae gan Ofcom chwe mis i gynnal Asesiad Cystadleuaeth y BBC i'r gorsafoedd DAB+ newydd arfaethedig ynghyd ag Asesiad Cystadleuaeth i ymestyn oriau darlledu Radio 5 Sports Extra. Byddwn yn dadansoddi cynigion y BBC ac yn ymgynghori ar y penderfyniadau dros dro. Ar ddiwedd y broses, byddwn yn cyhoeddi penderfyniadau terfynol.

Rydym wedi penderfynu gohirio dechrau ein Hasesiadau Cystadleuaeth chwech misol tan 6 Ionawr 2025. Mae hyn yn bennaf am fod rhanddeiliaid wedi dweud wrthym y byddant yn ei chael hi'n anodd ymateb i'n ceisiadau am wybodaeth yn ystod cyfnod gwyliau'r Nadolig yn sgil absenoldeb staff.<sup>6</sup>

Yn gywir,



Cristina Luna-Esteban

---

<sup>6</sup> Fel arfer, mae'n rhaid i Ofcom ddechrau Asesiad Cystadleuaeth y BBC yn syth ar ôl penderfynu gwneud hynny, ond gall oedi dechrau pan fydd sail resymol dros wneud hynny. Gweler Cymal 9(2) y Cytundeb mewn perthynas â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU.